CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS.

BETWS YN RHOS AND LLANELIAN YN RHOS COMMUNITY COUNCIL

CLERC : Mel Jones, 2 Lon Hafan Abergele LL22 8QJ
Ffon : 07833 548435 e-bost : clerc@betwsallanelian.org.uk

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NEUADD Y PENTREF, LLANELIAN 7.30 y.h. NOS LUN 2fed MEHEFIN 2025.

1. CROESO

Croesawyd y Cadeirydd, Cynghorydd Glena Humphrey, pawb i'r cyfarfod. Roedd y Cadeirydd yn awyddus i ddiolch yn swyddogol i'r Cynghorydd John Evans am ei holl waith fel Cadeirydd y Cyngor am y ddwy flwyddyn diwethaf. Roedd y cyfarfod yn gefnogi'r diolch.
Roedd y Cynghorydd Gethin Owen, oedd ddim yn bresennol yn y Cyfarfod Blynyddol, yn hapus i gymeryd swydd Dirpwy Cadeirydd y Cyngor Cymunedol.

2. YN BRESENNOL

Cynghorion Glena Humphrey, Irwedd GRIFFITHS, Goronwy R. WILLIAMS, D. Gwyn JONES, Gwenda DAVIES, Gethin OWEN, Cynghorydd y Sir - Ifor G. LLOYD a'r Clerc – Mel JONES.

3. YMDDIHEURIADAU

Cynghorion John EVANS, Bryn JONES, Hefin WILLIAMS a Gwawr Thomas.

4. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Atgoffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny.

Mae'r Cynghorydd Ifor LLOYD yn nawr yn Gadeirydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau yn ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

Roedd dim dataganiad o ddiddordeb.

5. COFNODION

Cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 12 fed Mai 2025 (Cynnig – Cynghorydd Gwyn Jones ac eilwyd gan y Cynghorydd Goronwy Williams)

6. MATERION YN CODI

Mae y dogfennau swyddogol wedi cael ei paratoi i'r Cynghorydd Gwawr Thomas i'w arwyddo. Mae Gwawar Thomas wedi ymddiheuro ac felly fydd y dogfennau yn cael ei arwyddo yn y cyfarfod nesaf.

7. CYLLID

Cafwyd Adroddiad Misol am y cyfnod ddod i ddod i ben 20fed Mai 2025.

Dod i ben 20fed Mai 2025

Cyfrif Cymunedol	= £6,068.05 (Dwyn Ymlaen)
Arian i Mewn	= DIM
Arian Allan	= £400.00 (Cyflog y Clerc)
	= £95.93 (Anfoneb misol BT WiFi)
	= £200.00 (Grant – Gofal Canser Tenovus)
	= £94.30 (HMRC Cyflog y Clerc)
	= £5.00 (Costau Banc)
	= £264.00 (Anfoneb Iswrant Zurich)
	= £150.00 (Aelodaeth blynyddol SLCC)
	= £95.93 (Anfoneb misol BT WiFi)
	= £197.43 (HMRC Cyflog y Clerc)
	CYFANSWM – £1,502.69

Cyfrif Cymunedol = £4,565.36 (Cludwyd Ymlaen)

Cyfrif Busnes = £4,071.02 (Dwyn Ymlaen)

Arian Allan = DIM
Arian i Mewn = DIM

Cyfrif Busnes = £4,071.02 (Cludwyd Ymlaen)

Cyfanswm **= £8,636.38**

Nododd yr aelodau y sefyllfa ariannol a'r adroddiad banc fel a restir uwchben.

Cytunodd pawb a'r adroddiad yma.

Yn dilyn yr Archwiliad Mewnol mae'n rhaid yn awr gael cytundeb y Cyngor i dalu pob anfoneb

Mae'r anfonebau/ceisiadau a restrir isod angen ei talu:

£95.98 BT – Anfoneb misol WiFi Betws a Llanelian
£333.60 – Anfoneb JDH am yr archwiliad lleol
£70.50 – Tal i Mrs Hilda Gibbs am blannu blodau yn pentref Betws yn Rhos
£170.00 – Anfoneb blynyddol Cradur.com am gwaith ar y wefan

Cytunodd pawb i'r Clerc dalu yr anfonebau yma.

Diweddariad gan y Clerc fod wedi gyrru cais am ad-daliad VAT o £596.61 am y flwyddyn ariannol diwethaf.

8. GOHEBIAETH

Derbynwyd

1. Ebyst arferol oddi wrth Un Llais Cymru, Gwasanaeth Cyhoeddus Gweithredol ayyb gyda'r rhai perthnasol yn cael ei gyrru ymlaen i'r Cynghorwyr. Mae rhain ar gael gan y Clerc
2. E bost wedi cael ei dderbyn gan Cyngor Sir Conwy ynglyn a adolygiad o Cynghorau Cymunedol. Darllenwyd yr holiadur ac fe nodwyd barn y Cynghorion. Fydd yr atebion yn cael ei gyrru i'r Cyngor Sir gan y Clerc.

Anfonwyd

1. Sylwadau ar geisiadau cynllunio i Adran Gynllunio CBSC
2. Llythyrau ac ebyst i'r Cynghorwyr yn dilyn negesuon, llythyrau ac ebyst yn dod i law.

9. GRANTIAU

Ceisiadau i'r Cyngor

1. E bost wedi ei dderbyn gan Ifor Jones yn gofyn am daliad grant i fynwent Betws yn Rhos. Roedd cytundeb unfrydol i dalu grant o £500.00 fel oedd yn y cais praesept. Y Clerc i dalu y grant.
2. Llythyr o ddiolch wedi ei dderbyn am y grant o £200.00 i Gofal Canser Tenovus wedi ei dalu.

a. Ceisiadau gan y Cyngor

Mae CVSC yn awr yn rhoi cymorth i'r Cyngor chwilio am grantiau i gefnogi projectau o fewn y gymuned.

Fydd yn gofyn rhoid cais i mewn yn y dyfodol i atgyweiro cae chwarae Betws yn Rhos.

10. CYNLLUNIO - http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer

Roedd dim ceisiau newydd

Cyfeirnod: 0/52481 **Ymgeisydd: Mr Clwyd Roberts**

Cynllun: Adeiladu trac (Caniatâd Blaenorol Ameaethyddol)

Safle: Ty Newydd Cilgwyn Road Llanelian Yn Rhos Colwyn Bay Conwy LL29 8YR

Dim angen rhoid cais i mewn i wned y gwaith.

Cyfeirnod: 0/52538 **Ymgeisydd: Mrs Elmaira Watson**

Cynllun: Newid defnydd adeilad cerrig amaethyddol nad yw'n cael ei ddefnyddio ac ysgubor yn ogystal â sied storio ffrâm ddur i annedd teulu unigol

Safle: Tyn Y Wal Farm Pencraig Road Dolwen Betws Yn Rhos LL22 8NT

Yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio

Cyfeirnod: 0/52477 **Ymgeisydd: Mr Hughes**

Cynllun: Sied amaethyddol arfaethedig ar gyfer cadw offer amaethyddol

Safle: Plas Meredydd Pen Y Ffrith Betws Yn Rhos LL22 8BU

Yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio

Cyfeirnod: 0/52408 **Ymgeisydd: Castle Green Homes**

Cynllun: Diwygiad i Cynllun 0/42351 (wedi ei gymeradwyo) i newid tirwedd y stad newydd

Safle: Parc Elian, Ffordd Dolwen, Hen Golwyn.

Y cais wedi ei dynnu yn ol

Cyfeirnod: 0/52410 **Ymgeisydd: Castle Green Homes**

Cynllun: Diwygiad i Cynllun 0/42351 (wedi ei gymeradwyo) i newid tirwedd y stad newydd

Safle: Parc Elian, Ffordd Dolwen, Hen Golwyn.

Y cais wedi ei dynnu yn ol

Cyfeirnod: 0/52387 **Ymgeisydd:** BR Storage

Cynllun: Newid defnydd tir ar gyfer storio carafanau gyda thirlunio cysylltiedig

Safle: Bryn Rodyn, Ffordd Dolwen, Hen Golwyn LL29 8UU

Yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio

Cyfeirnod: 0/52339 **Ymgeisydd: Ywain Williams**

Cynllun: Dymchwel sied bresennol a chodi estyniad deulawr yn ei lle i ddarparu ystafelloedd gwely, ystafell amlbwrpas a garej ar y llawr gwaelod ynghyd â chegin cynllun agored ar y llawr cyntaf.

Safle: Ael Y Bryn Ffordd Llanelwy Betws Yn Rhos LL22 8AN

Wedi cael ei gymeradwyo gan yr Adran Cynllunio

11. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL

Roedd datganiad cyfrif yr archwiliad lleol 2024/2025 wedi ei ddrafftio ac wedi cael ei yrru i JDH. Mae yr adroddiad archwiliad wedi cael ei dderbyn yn ol gan JDH. Mae angen newid y datganiad cyfrif i ddangos y cyfrif a cludwyd ymalen fel £13,998 a taliadau ei newid i £278. Mae y datganiad cyfrif wedi ei ddiwygio ac wedi ei arwyddo gan y Cadeirydd a'r Clerc.

Mae JDH wedi darparu y cynllun gweithredu canlynnol:

Nid oedd y Cyngor wedi adolygu, diweddaru, a cymeradwyo yr asesiad risg yn y flwyddyn ariannol. Fe ddyliau yr asesiad risg gael ei adolygu, diweddaru, a cymeradwyo pob blwyddyn ariannol

Roedd cytundeb unfrydol i adolygu yr asesiad risg.

Mae cronfa wrth gefn wedi gostwng i £4,506 ac mae £2,388 o'r arian yma yn cael ei ddefnyddio tuag at cyllideb 2025/2026 yn gadael swm o £2,118. Mae hyn yn 12% o'r praesept 2025/2026. Canllawiau y sector yw ddyliau Cynghorau edrych am gronfa wrth gefn rhwng 25% a 100% o'r praesept neu costau gweithredol. Ddyliau'r Cyngor adolygu y cronfa wrth gefn yn ystod proses sefydlu y cyllideb gan gadw sylw at canllawiau y sector i sicrhau lefel cronfa ddigonol o flwyddyn i flwyddyn.

Roedd cytundeb unfrydol i adolygu y gronfa wrth gefn yn ystod proses y praesept. Roedd pryderion sut fuasai codi'r praesept i gadw cronfa wrth gefn yn cael ei weld gan y Gymuned.

Mae contract y Clerc yn egluro fydd tal yn Gradd SCP 17 sydd wedi ei gydweld yn genedlaethol i Glercod yn Lloegr a Cymru. Mae tal y Clerc wedi ei dalu yn 2024/2025 yn anghywir. Tal SCP 17 2023/2024 sydd wedi ei dalu a dim tal 2024/2025. Y Cyngor i sicrhau fydd y Clerc yn cael tal fel cytunwyd yn ei gontract.

Roedd problemau hefo codiad cyflog 2024/2025 yn cael ei yrru i'r Cyngor. Roedd y Clerc yn hapus hefo'r cyflog a dderbynwyd. Mae y cyflog cywir yn cael ei dalu am 2025/2026.

Roedd cytundeb unfrydol i'r papurau archwiliad gael ei gyrru i Archwiliad Cymru a cael ei postio ar wefan y Cyngor Cymunedol.

Mae'r adroddiad gan Archwiliad Cymru am yr archwiliad llawn am y flwyddyn i 31/3/2024 wedi cael ei dderbyn ar y 29/5/2025.

Fe drafodwyd cynnwys yr adroddiad a'r sylwadau gan y Cynghorion. Derbynwyd yr argymhellion isod gan y Cynghorion a fyddent yn cael ei gweithredu.

1. Nid oedd Cofnodion wedi cael ei darparu yn dangos for archebion sefydlog a rheolau ariannol wedi cael ei cymeradwyo.
2. Roedd asedau hefo gwerth wedi cael ei gwared a dim esboniad yn y Rhestr Asedau. Mae angen cadw y Rhestr Asedau yn gywir hefo asedau a dderbynwyd a asedau a gafodd ei gwared.

Roedd cytundeb unfrydol i'r rhybudd fod yr archwiliad wedi ei gwbwlhau gael ei postio fel awgrymwyd gan Archwiliad Cymru

12. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD

Croesawyd y Cynghorydd Ifor Lloyd yn ol i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Roeddent wedi ei fethu yn y cyfarfodion diweddar ac roedd pawb yn gyrru ei dymuniadau gorau yn ei adferiad.

Rhoddodd Cynghorydd Lloyd ddiweddariad for Cyngor Sir Gonwy wedi symud ei swyddfeydd o Bodlondeb, Conwy i Coed Pella, Bae Colwyn.

Mae Cynghorydd Lloyd wedi cael ei ethol fel cadeiryddd pwyllgor cynllunio y Sir ac fydd yn dechrau yn y swydd yn fuan.

Mae y gwaith wedi ei ddechrau i atgyweiro ffyrdd gwledig hefo £4.7 miliwn wedi ei glustnodi o'r cyllideb. Mae rhestr y ffyrdd sydd angen ei atgyweiro yn ein cymunedau wedi cael ei gyflwyno. Mae gwaith tocio cloddiau wedi cael ei gychwyn.

13. CYNNAL A CHADW ADNODDAU ARDAL Y CYNGOR CYMUNEDOL

a. **Caeau Chwaraeon Plant -Betws yn Rhos/Llanelian.**

Mae Cynghorydd Gwenda Davies wedi cysylltu yn lleol i ddewis yr offer gorau i'r plant ieuengaf. Dewiswyd yrofferau canlynnol o catalog KOMPAN

Tudalen 84 – MSC 5424

Tudalen 100 – PCM 400221

Tudalen 152 – M128/M175

Y Clerc i gysylltu gyda KOMPAN a gofyn am amcangyfrif.

b. **Diffibrilwyr.**

Dim adroddiad mis yma**.**

Y Clerc yn ceisio trefnu hyfforddiant defnyddio diffibrilwyr i gymunedau Llanelian a Betws yn Rhos ac yn disgwyl ymateb gan Tomos Hughes.

c. **Yr Hwb**

Mae angen gwirfoddolwyr iw gynnal, a bydd ar agor o 9:00yb hyd at 12:00 yh bob bore Dydd Mawrth yn y Pafiliwn Chwaraeon yn Betws yn Rhos.

d. **Gwlau blodau/Meinciau Ffordd Abergele**

Mae Hilda Gibbs wedi plannu blodau yn potiau yn pentref Betws.

e. **Toiledau yn Betws yn Rhos/Llanelian**

Roedd Cynghorydd John Evans wedi diweddaru eisioes fod Pwyllgor Eglwys Betws yn Rhos yn edrych at atgyweiro adeilad tu allan i'r eglwys fel toiled.Fydd diweddariad ar gael pan fydd cynnydd yn y planniau. Mae'r Cyngor Cymuned yn fodlon i gefnogi Pwyllgor yr Eglwys.

Mae y Clerc wedi siarad hefo Un Llais Cymru a nid oes gymorth i gael hefo cael cyngor cyfreithol. Y Clerc i ofyn am amcangyfrif y gwaith gan Dylan Llyr, (Cyfreithiwr) Cwmni Howell Jones, Llanrwst.

Y Clerc wedi gofyn i gwmni Zurich beth fydd cost iswrant adeilad y toiledau.Yn dal i ddisgwyl y manylion.

Roedd cytundeb i'r Clerc ddiweddaru y Cynghorion ar Ebost i wneud unrhyw benderfyniad cyn y cyfarfod nesaf.

f. **Materion arall**

Mae'r Clerc wedi ysgrifennu i Cyngor y Sir ynglyn am led y rhwystr (barrier) ar ffin y llwybyr cyhoeddus a'r ffordd fawr yng nghanol pentref Betws yn Rhos a hefyd y 'gazebo' dros yr afon yn Llais Afon sydd yn debyg i amharu hefo ochr yr afon. Mae Cyngor y Sir wedi ateb ac yn cael ymchwil o dan cyfeirnod 112632. Mae asesiad fod y gwaith yn ddi-frys.

Ynglyn a'r mater gododd Cynghorydd Irwedd Griffiths ar y15fed Gorffennaf am dro cul ar y ffordd rhwng Nant y Cohl a Bryn Derwen mae y gwaith yn dal i ddisgwyl.

Coed Ty Brith, Ffordd Abergele, Betws yn Rhos. Cae yn cael ei ddefnyddio fel Parc Cwn a Tepees yn y safle. Mae yr Adran Gynllunio yn ymwybodol ac fydd diweddariad mewn amser.

Y Clerc wedi ysgrifennu i'r Adran Gynllunio for dau teepee ar y safle. Mae y Cyngor yn mynd i gysylltu a'r perchennog

Tir ger Nant Uchaf, Betws yn Rhos. Cae yn cael ei ddefnyddio i gadw peiriantau trwm. Mae yr Adran Gynllunio yn ymwybodol ac fydd diweddariad mewn amser.

Mae angen ail blannu y goeden mwnci yn ymyl Pafilwn Chwaraeon, Betws yn Rhos. Mae y goeden o ffordd darparu parcio ychwanegol. Mae AJC Contractors yn mynd i ail blannu y goeden. Mae Cynghorydd Ifor Lloyd yn foldlon cysylltu hefo AJC Contractors.

Mae y clawdd ar Ffordd Abergele gyferbn a Nant y Ffordd yn fler ac eisio ei docio. Y Clerc i gysylltu a'r Cyngor Sir.

14. Y GYLLIDEB FLYNYDDOL / PRAESEPT

Mae y cais praesept am £18,000 wedi cael ei gytuno gan y Cyngor Sir. £6,000 wedi ei dalu i'r cyfrif banc ar 15/4/25 ac fydd y ddau daliad arall yn mis Awst 2025 a mis Rhagfyr 2025.

Fydd y Clerc yn diweddaru pan fydd ateb gan y Cyngor Sir.

15. **FFERMYDD GWYNT TIROL AC ALLTRAETH AWEL Y MOR/GWYNT Y MOR/MONA**

Mae'r pwnc yma yn cael ei drafod ym mhob cyfarfod o'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn cadw llygaid craff ar unrhyw gais a ddaw i fyny.
Gweler y linciau yma am wybodaeth i'r Ffermydd gwynt Alltraeth**:**
Overview
About us About the Project What the Project will look like Processes and Next Steps
Our work so far Interactions with other marine users
Information Hub Visualisations of the windfarm Interactive map.

Dim diweddariad ynglyn a cynllun tyrbines gwynt a parc solar ar Fynydd Llanelian. Bydd y Cyngor yn cadw llygaid craff ar unrhyw gais.

16. **CANOLFAN GYMUNEDOL LLANELIAN YN RHOS**

Mae yr eitem yma ar yr agenda er mwyn cadw cofnod o sut mae y gwaith yn dod yn ei flaen, ac er mwyn rhoi cefnogaeth pan y bydd angen.

Mae ombwdsmon BT oedd yn edrych ar yr oedi mewn gosod WiFi yn y neuadd o Ebrill 2024 tan Awst 2024 wedi cyrraedd penderfyniad. Mae BT i rhoid iawndal o 12 diwrnod o rhent y llinell, £50 o credyd i cyfrif BT y Cyngor, a hefyd ysgrifennu llythyr ymddiheuriad.
Roedd cytundeb unfrydol dyliau'r penderfyniad gael ei dderbyn a fydd y mater ar gau.

Gan for y mater ar gau nid oes angen cael pennawd y Neuadd ar yr agenda yn symud ymalen. Fe drafodwydd y Neuadd o dan pennawd Cynnal a Chadw yn yr Agenda.

17. **Y GADLAS**

Dim awgrymiad am erthygl.

18. **UNRHYW FATER ARALL**

Rhoddodd Cynghorydd Glena Humphrey ddiweddariad fod John ag Aloma Wheway yn agor y Pafiliwn Chwaraeon yn Betws yn Rhos pob nos wener i blant yr ardal cael ei ddefnyddio fel lle diogel i gyfarfod. Y Clerc i yrru diolch y Cyngor Cymunedol i John ag Aloma am ei ymrwymiad.

Rhoddodd y Cynghorion ei llongyfyrchiadau i Cynghorydd Glena Humphrey am arwain ei disgyblion o Ysgol Glanwydden i ennill y cystadleuath yn Eisteddfod yr Urdd.

Gan nad oedd materion eraill fe ddaeth y cyfarfod i ben am 9.30 yh.

CADEIRYDD ……..

CLERC…… Mel Jones

DYDDIAD: 7fed Gorffennaf 2025